# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 9FED MAWRTH, 2026**

**I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 27 Chwefror 2026)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Alan Jones Evans | Annwen Hughes |
| Gareth Tudor Jones | Edgar Wyn Owen |
| Gwynfor Owen | Arwyn Herald Roberts |
| Huw Rowlands | Elfed Williams |
| Gwilym Evans | Meryl Roberts |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gareth Williams | Angela Russell |
| Anwen J. Davies | John Brynmor Hughes |
| Hefin Underwood | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 1af o Ragfyr 2025 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** 7 - 10

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol:

a) 05-11-2025

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 01-12-2025**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Anwen Davies, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts, Meryl Roberts, Angela Russell, Hefin Underwood a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Andrew Parry (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 30 Mehefin 2025 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 8fed o Hydref 2025 fel rhai cywir.

**6. ADOLYGU POLISÏAU TACSI CYNGOR GWYNEDD** - Polisi Collfarnau Perthnasol – Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr - Dogfen Canllawiau Addasrwydd y Sefydliad Trwyddedu - Canllawiau ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai yn y diwydiant Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn amlygu newidiadau arfaethedig i bolisïau a meini prawf addasrwydd ar gyfer gyrwyr a gweithredwyr tacsi. Gwnaed cais i'r Pwyllgor fabwysiadau'r newidiadau yn ddi-oed fel bod modd eu cynnwys yn y Polisi Trwyddedu Tacsi Unedig newydd fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn dilyn adolygiadau o ganllawiau, gweithdrefnau a pholisïau.

Eglurwyd bod y Meini Prawf Addasrwydd cyfredol wedi eu datblygu yn 2014 ar y cyd gydag Awdurdodau Trwyddedu Cymru er mwyn ceisio cysondeb rhwng Cynghorau wrth benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai. Nodwyd nad oedd dehongliad pendant yn y Ddeddf o'r safon ddisgwyliedig i brofi addasrwydd diogelwch unigolyn i ddal trwydded tacsi, ac o ganlyniad cyhoeddodd y Sefydliad Trwyddedu ganllawiau yn 2018 i gynorthwyo Awdurdodau

Trwyddedu benderfynu ar addasrwydd unigolyn. Mabwysiadwyd y canllawiau hynny gan y Pwyllgor Trwyddedu fel canllaw ychwanegol swyddogol i'w ystyried mewn gwrandawiadau, law yn llaw gyda Polisi Collfarnau Cyngor Gwynedd.

Adolygwyd y canllawiau yn 2024 a bellach cyhoeddwyd dogfen ddiwygiedig oedd yn caniatáu i swyddogion ac Aelodau roi ystyriaeth i faterion ehangach sy'n effeithio addasrwydd a diogelwch person i fod yn meddu ar drwydded tacsi. Ategwyd bod y canllawiau yn cyfarch ystyriaethau fel pryderon diogelu plant a phobl fregus mewn manylder.

Tynnwyd sylw at y Meini Prawf Addasrwydd gan nodi bod y prif egwyddorion yn aros yr un fath ond bod y newidiadau arfaethedig yn canolbwyntio ar alinio Polisi Meini Prawf y Cyngor gyda Chanllawiau Addasrwydd y Sefydliad Trwyddedu, ynghyd a pholisïau a weithredir mewn Cynghorau eraill.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:
- Yn croesawu canllawiau ychwanegol a chyfarwyddiadau cadarn
- Cytuno gyda'r penderfyniad i wrthod trwydded os bydd gyrrwr yn cael yn euog ddwywaith am yrru o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau – hyn yn ganllaw mwy pendant
- Cynnydd mewn amser yn cael ei groesawu - hyn yn cryfhau'r grym i sicrhau diogelwch ac i'r ymgeisydd ddysgu gwersi
- Awgrymu diddymu 'drwy yrru' yn y frawddeg 'lle mae troseddau wedi arwain at farwolaeth drwy yrru'

Mewn ymateb i gwestiwn:

- ynglŷn â phryd roedd y newidiadau yn dod i rym, cadarnhawyd, pe byddai'r Pwyllgor yn eu cymeradwyo, byddai'r newidiadau yn dod i rym ar y 1af o Ionawr 2026. Ategwyd y byddai'r Adran Trwyddedu yn cyhoeddi'r dogfennau a'r dudalen ceisiadau gan roi gwybod i'r diwydiant tacsi am y newidiadau gan egluro eu bod yn cyfateb yn well gyda gofynion y diwydiant cenedlaethol.

- os oedd y newid i gyfnod amser yn mynd i gael effaith ar drwyddedau oedd eisoes wedi eu caniatáu, nodwyd mai ychydig o droseddau fydd yn disgyn i'r categori 'addasrwydd person'.

- ynglŷn â rhannu gwybodaeth gyda Chynghorau eraill, nodwyd bod gan y Cynghorau fynediad at wiriadau o fas data cofnodion troseddau cenedlaethol a bod hawl gan swyddogion gofnodi gwybodaeth ar y bas data yma e.e., achlysur lle maent wedi diddymu trwydded. Ategwyd bod y gwiriadau a'r croesgyfeirio yn cael ei wneud yn drwyadl a'r bas data yn cael ei ddefnyddio yn aml i osgoi ceisiadau posib o un Awdurdod i'r llall. Gall gwybodaeth sydd yn cael ei rannu gan yr Heddlu neu Gynghorau eraill fod yn wybodaeth sydd tu hwnt i'r hyn sydd wedi ei gynnwys ar y DBS.

- lle mae cyfnod amser aros am ddyddiad gwrandawiad Llys a'r posibilrwydd o ddedfryd, nodwyd bod gan yr Is-bwyllgor, wrth wneud penderfyniad, yr hawl i ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol yng nghyd-destun effeithiolrwydd person? Gyda'r Ddeddf yn ben agored o ran dehongliad pendant o 'addasrwydd', bydd gan yr Is-bwyllgor hawl i ystyried holl amgylchiadau'r ymgeisydd. Ategwyd bod gan yr Heddlu gyfrifoldeb i rannu neu hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu o unrhyw ddatgeliad perthnasol / honiad yn erbyn yr ymgeisydd. Bydd hawl gan y swyddogion i wneud penderfyniad o atal trwydded dros gyfnod neu roi diddymiad parhaol yn unol â phenderfyniad yr Is-bwyllgor trwyddedu.

- ynglŷn â gwybodaeth sydd yn cael ei rannu ar y bas data cenedlaethol, cadarnhawyd bod y bas data yn cynnwys gwybodaeth ar draws y Deyrnas Unedig.

- ynglŷn â rheidrwydd ymgeisydd i ddatgelu rhybudd gan yr Heddlu, nodwyd bod cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i ddatgelu hyn.

**PENDERFYNWYD**

- **Croesawu'r adroddiad oedd yn cynnig cyfarwyddiadau cadarn ac yn alinio Polisi Meini Prawf y Cyngor gyda Chanllawiau Addasrwydd y Sefydliad Trwyddedu a pholisïau Cynghorau eraill**
- **Derbyn y cynigion arfaethedig o ran adolygu'r 'Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr' a'i cymeradwyo ar gyfer eu gweithredu o'r 1af o Ionawr 2026, yn ddarostyngedig ar ddileu 'drwy yrru' yn mrawddeg paragraff 3.1 o'r adroddiad - *Ni ddylid ystyried ceisiadau am drwydded o dan unrhyw amgylchiadau lle mae troseddau wedi arwain at farwolaeth drwy yrru.***
- **Cymeradwyo mabwysiadu canllawiau diweddaraf y Sefydliad Trwyddedu - *Canllawiau Addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai yn y diwydiant cerbydau hacni a hurio preifat 2024*, ac unrhyw ddiweddariadau fydd yn dilyn fel canllawiau swyddogol ychwanegol i'w ystyried ochr yn ochr a pholisi collfarnau Meini Prawf Addasrwydd y Cyngor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:45am

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 05-11-25**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Gwynfor Owen (Cadeirydd), Arwyn Herald Roberts ac Elfed Williams

**Swyddogion**: Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Andrew Lloyd Parry (Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu, a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

Eitem 5: Ymgeisydd Mr A a'i gynrychiolydd

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

   **PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

   - Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
   - Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
   - Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
   - Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
   - Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
   - Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

   Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais gan Mr A i adnewyddu trwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Dangoswyd dwy fideo teledu cylch cyfyng o'r ddamwain yr oedd yr ymgeisydd wedi ei gyhuddo ohoni – roedd y ddwy fideo wedi eu

cyflwyno fel tystiolaeth gan yr ymgeisydd. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r hyn sy'n gysylltiedig ag addasrwydd unigolyn i fod yn yrrwr cerbyd hacni/hurio preifat

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor wrthod y cais.

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd llythyr yn cael ei anfon at yrwyr cerbyd hacni/hurio preifat yn eu hatgoffa bod eu trwydded yn dod i ben, cadarnhawyd bod trefniant o'r fath mewn lle gan yr Uned Trwyddedu, ond yn yr achos yma bod yr ymgeisydd wedi symud tŷ yn ddiweddar. Ategodd mai gofyn cyfreithiol yw i'r ymgeisydd roi gwybod i'r Uned o unrhyw newidiadau yn ei amgylchiadau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyflymder y car yn taro aelod o'r cyhoedd, nodwyd er nad oedd tystiolaeth o'r cyflymder bod tystiolaeth gan yr un a drawyd yn nodi 'nad oedd y gyrrwr yn gyrru yn afresymol'

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y drosedd gyrru roedd yr ymgeisydd wedi ei gyhuddo ohoni, a'i amgylchiadau personol. Nododd ei fod wedi pledio yn euog i'r cyhuddiad ac roedd yn derbyn difrifoldeb y sefyllfa - petai yn colli ei drwydded, byddai yn colli ei waith. Ategodd ei fod yn yrrwr cerbyd hacni/hurio preifat ers dros 15eg mlynedd a bod ganddo drwydded yrru lân ac nad oedd wedi derbyn cwynion am ei waith.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

- **Rheswm :** Pan fydd gan ymgeisydd am drwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat unrhyw euogfarnau troseddol (collfarnau) neu rybuddion, bydd y cais yn cael ei gyfeirio at Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol am benderfyniad. Tasg yr Is-bwyllgor yw penderfynu a yw'r ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw, mae'n ofynnol i'r Is-bwyllgor ystyried Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'. Fodd bynnag, bydd pob cais yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau ei hun pan fydd amgylchiadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Is-bwyllgor wyro oddi wrth unrhyw argymhellion a nodir yn y Polisi.

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:
- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Canllawiau Addasrwydd Unigolyn
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- DBS yr ymgeisydd – dim cofnod o gollfarnau
- Adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- Taflen gyhuddiadau Heddlu Gogledd Cymru
- Canllawiau Llywodraeth DU ar bwyntiau cosb
- Geirda'i yn cefnogi'r ymgeisydd
- Sylwadau llafar gan yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Ym mis Tachwedd 2025 derbyniodd yr ymgeisydd 6 pwynt cosb a £390 o ddirwy am yrru heb ofal a sylw dyladwy yn groes i Adran 3 Deddf Traffig Ffyrdd 1988 ac Atodlen 2 Deddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988.

Ym mis Medi 2025 canfuwyd bod trwydded cerbyd hacni/hurio preifat yr ymgeisydd wedi dod i ben Gorffennaf 2025

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi’r Cyngor lle nodi’r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu’r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p’run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae rhan 13 yn ymwneud a mân droseddau traffig ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o’r Polisi gyda pharagraff 13.1 yn diffinio ‘man drosedd traffig fel trosedd sydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb. Ystyriwyd paragraff 13.3 sy’n datgan y “Gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i’w hystyried ar gyfer yr un drosedd, e.e. goryrru. Mae’n bosibl y caiff gyrrwr trwyddedig ei gyfeirio at sylw Is-bwyllgor Trwyddedu os oes mwy na dwy drosedd ac/neu gyfanswm o 6 phwynt ar ei drwydded

Bod Dogfen y Sefydliad Trwyddedu 2024, (sydd wedi ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Trwyddedu fel canllaw ychwanegol i gefnogi  dogfen Polisi Collfarnau y Cyngor - Meini Prawf Addasrwydd Gyrwyr a gweithredwyr 2014), yn cynnig arweiniad ychwanegol i’r Aelodau ei ystyried lle nad oes collfarnau ar dystysgrif DBS yr ymgeisydd; ond lle mae materion ychwanegol i'w hystyried cyn penderfynu os yw unigolyn yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrru tacsi.  Diogelu’r cyhoedd yw'r ffactor mwyaf allweddol wrth asesu addasrwydd ymgeisydd i ddal trwydded gyrru tacsi.

Bod cymal 4:50 o ddogfen y Sefydliad Trwyddedu fod gyrwyr cerbydau hacni a hurio preifat yn yrwyr proffesiynol hefo cyfrifoldeb o gludo'r cyhoedd. Bydd unrhyw gollfarn gyrru yn gallu bod yn arwydd o ddiffyg proffesiynoldeb ac yn fater i’w gymryd o ddifri.

**CASGLIADAU**

Derbyniodd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd wedi derbyn collfarn am y ddamwain yn Ebrill 2025. Cafwyd eglurhad llawn o’r digwyddiad gan gynrychiolydd yr ymgeisydd oedd yn ategu bod y gollfarn am y drosedd ymysg y rhai lleiaf difrifol o droseddau moduro. Cyflwynwyd sylwadau ynghylch ei gofnod gyrru rhagorol a hynny fel gyrrwr tacsi ers dros 15 mlynedd. Cadarnhaodd yr Uned Trwyddedu nad oedd unrhyw ddigwyddiad na chwyn wedi cael ei gyfeirio at yr Uned am yr ymgeisydd yn ystod y cyfnod. Roedd yr Is-bwyllgor yn ystyried hyn fel tystiolaeth o yrrwr tacsi cyfrifol ac yn amlygu cymeriad da. Nodwyd fod y ddamwain wedi digwydd ar ôl iddi dywyllu ar gornel beryglus a bod y dystiolaeth a awgrymwyd gan dystion yn nodi nad oedd yr ymgeisydd yn gyrru uwchlaw terfynau cyflymder disgwyliedig nac yn gyrru yn afresymol.

Ystyriwyd cynnwys y llythyrau geirda a dderbyniwyd oedd yn atgyfnerthu nodweddion o gymeriad da'r ymgeisydd ac yn ategu nad oedd problemau gyda’i waith fel gyrrwr tacsi.

Derbyniodd yr is-bwyllgor sylwadau gonest yr ymgeisydd ei fod yn llawn deall difrifoldeb y sefyllfa.

Yng nghyd-destun rheswm dros fethu adnewyddu ei drwydded yn amserol, derbyniwyd ei eglurhad dros beidio â derbyn llythyr atgoffa, a hynny efallai oherwydd ei fod wedi symud tŷ, ond pwysleisiodd yr Is-bwyllgor mai cyfrifoldeb cyfreithiol yr unigolyn yw adnewyddu trwydded a hyn heb orfod dibynnu ar dderbyn llythyr atgoffa.

Wedi pwyso a mesur yr holl ffactorau yn ofalus, penderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i dderbyn trwydded.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd gan amlygu ei hawl i apelio'r penderfyniad

Dechreuodd y cyfarfod am 14 :30 a daeth i ben 15 :40